Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun 5 Mehefin 2017 yn Festri Capel Penuwch am 8 o'r gloch.
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday 5 June 2017 in Penuwch Chapel Vestry at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol, gan ddiolch yn benodol i Cyng Gerwyn Ebenezer am fod yn gadeirydd dros y flwyddyn sydd newydd orffen.
The Chair welcomed everyone to the monthly meeting having thanked, in particular, Cllr Gerwyn Ebenezer for being Chair over the past year.

Presennol/*Present*
Paul Rook (Cadair/*Chair*); Gerwyn Ebenezer; Emyr Jones, Dafydd Morse; Beryl Evans, Eirian Jones, Rhian Turner, John Evans & Cyng Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/*Apologies* – Cyng Gwilym Evans & Cyng Myrddin James.

Datgan Diddordeb/*Declaring an Interest* – Neb/ *No one*

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig John Evans ac eiliwyd gan Beryl Evans.
John Evans proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Beryl Evans.

Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from the Minutes*

- Trafodwyd y parc a chytunwyd i ofyn i Cyng Gerwyn Ebenezer i alw efo Mr Dai Stephens i roi pwysau arno i ddechrau'r gwaith ar y parc gan fod yna dipyn o ddefnydd a bod angen i'r gwaith cael eu wneud ar frys neu bydd rhaid mynd allan i ofyn i gontractiwr arall i ymwneud â'r gwaith.
- *The park was discussed and it was agreed to ask Cllr Gerwyn Ebenezer to call with Mr Dai Stephens to put pressure on him to start the work in the park, as the park will be used a great deal more soon, and that the work needs to be done urgently; otherwise another contractor will need to be asked to do the work.*
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mrs Dilwen Stephens ar ran pwyllgor y Neuadd yn derbyn cynnig y Cyngor Cymuned i archebu bocs diffib i'w leoli ar wal allanol Neuadd y Pentref. Clerc i archebu bocs pwrpasol.
- *A letter was received from Mrs Dilwen Stephens, on behalf of the Hall committee, saying that it accepts the Community Council's offer to buy a purposeful box for the defibrillator, to be placed on an external wall of the village hall. The clerk is to purchase such a box.*
- Dim cynigion wedi'u dderbyn i roi gerbron Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru erbyn 20fed o Fehefin 2017
- *No proposals accepted to be put forward at the Annual General Meeting of Once Voice Wales by 20 June 2017.*
- Angen jetters yn y Gymuned.
- *Need for jetters in the Community.*

Seddi Gwag/*Vacant Seats*
Plwyf Gwynfil – Debyniwyd un cais oddi wrth Mr Daniel Thomas, derbyniwyd yn unfrydol.
Gwynfil Parish – One application from Mr Daniel Thomas, which was accepted unanimously.
Plwyf Penuwch – Ni dderbyniwyd ceisiadau am y sedd wag yma. Trafodwyd y posibilrwydd o co-optio a gofynnir i'r Clerc gysylltu a hwy.
Penuwch Parish – No applications received for this vacant seat. Co-opting was discussed, and the Clerk is to liaise about this.

Ceisiadau am gymorth ariannol/*Applications for Financial Assistance*
Derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth ariannol a chytunwyd ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Gerwyn Ebenezer i ddosbarthu'r arian fel y ganlyn:-
£100 yr un i - Sinema Gymunedol Llangeitho; Llangeitho Actif; Y Barcud; Ysgol Sul; Eglwys Llanbadarn Odwyn; Ysgol Llangeitho; Carnifal Llangeitho; Clwb Garddio; Capel Gwynfil; Cylch Meithrin Llangeitho; Ti a Fi; CFfI Llangeitho; 1st Response; Capel Llwynpiod; Capel Penuwch; Eglwys Llangeitho.

A number of applications for financial assistance were received and agreed upon on the proposition of Cllr Beryl Evans and this was seconded by Cllr Gerwyn Ebenezer. They are as follow:
£100 each for: Llangeitho Community Cinema; Llangeitho Active; Y Barcud; Sunday School; Llanbadarn Odwyn Church; Llangeitho Primary School; Llangeitho Carnival; Gardening Club; Gwynfil Chapel; Llangeitho Playgroup; Ti a Fi; Llangeitho YFC; First Response; Llwynpiod Chapel; Penuwch Chapel; Llangeitho Church.

Gohebiaeth/*Correspondence*

- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr Cyngor Sir Ceredigion yn ein hysbysu fod cyfnod Cyng Dafydd Morse fel Gynrychiolydd yr Awdurdodau Llai ar Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Rhos Helyg yn dod i ben ar 11 Gorffennaf 2017. Cyng Dafydd Morse yn fodlon gwasanaethu am gyfnod o 4 blynedd arall, diolchwyd iddo am ymgymryd a'r gwaith.

- *An email was received from the officer responsible for supporting the school governors of Ceredigion County Council notifying us that Cllr Dafydd Morse's term as the representative of the lay authority on the governing body of Rhos Helyg Community School was coming to an end on 11 July 2017. Cllr Dafydd Morse is willing to continue as representative for another four years, and he was thanked for being willing to do so.*
- Penodwyd Cyng Beryl Evans i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar bwyllgorau Rhanbarthol – Un Llais Cymru.
- *Cllr Beryl Evans was appointed to represent the Community Council on the district committee of One Voice Wales.*
- Derbyniwyd a thrafodwyd llythyr 'Seafarers UK' – dim gweithrediad.
- *A letter from 'Seafarers UK' was received and discussed – no further action.*

Cyfrifon/*Accounts*

- Dŵr Cymru £14.87
- Aswiriant Zurich *Insurance* £493.59
- Balans y banc ar 31.05.2017 £11,860.21
- *Balance in the bank on 31.05.2017 £11,860.21*

Cynnigwyd i'w dalu ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner.
Payment was proposed by Cllr Beryl Evans, and this was seconded by Cllr Rhian Turner.

Cyngor Sir Ceredigion/*Ceredigion County Council*
Dim i'w gofnodi.
Nothing to record.

Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*
- Trafodwyd melin wynt Goyallt a gofynnir i'r clerc edrych ar manylion gwreiddiol i weld pa bryd a ble oedd yr arian yn cael ei ddosbarthu nôl i'r gymuned.
- *The Goyallt wind turbine was discussed and the clerk was asked to look back to the original details to see when and where the monies would be allocated to the community.*
- Cyng Rhodri Evans i ofyn i'r Cyngor Sir am amserlen tarmacio'r ffordd heibio Cnwc y Barcud, Llangeitho.
- *Cllr Rhodri Evans to ask the County Council for a tarmacing timetable for the road past Cnwc y Barcud, Llangeitho.*
- Soniwyd am pwysigrwydd â'r angen i dorri cloddiau'r ffyrdd cul yn ofnadwy.
- *It was noted how important it was to mow the hedges of the narrow roads as soon as possible.*
- Soniwyd fod Miss Bronwen Morgan yn ymddeol o'r Cyngor Sir mis Medi 2017.
- *It was noted that Miss Bronwen Morgan was retiring from the County Council in September 2017.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/ *Date and Location of next meeting*
Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Jiwbili Llangeitho ar nos Lun 3 Gorffennaf 2017 am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Jubilee Hall, Llangeitho, on Monday, 3 July 2017, at 8p.m.